



Coleg Nyrso Brenhinol  
Cymru  
Royal College of Nursing  
Wales

# Rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau yng Nghymru

Papur briffio i Aelodau o'r Senedd



# Sut all Llywodraeth Cymru roi diwedd ar ofal mewn coridorau?

I gael gwared ar ofal mewn coridorau, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu ei Rhaglen Genedlaethol, *Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng*,<sup>1</sup> yn llawn ledled Cymru, a chynnwys pob Coleg Brenhinol - gan gynnwys y Coleg Nyrsio Brenhinol - yn y gwaith hwn. Hefyd, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol ar unwaith:

- 1** Sefydlu gofal a ddarperir i glaf mewn cadair am fwy na 24 awr fel “digwyddiad byth”.
- 2** Cymryd mesurau i helpu i feithrin diwylliant gwasanaeth iechyd lle mae staff nyrsio yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i godi pryderon diogelwch.
- 3** Cynyddu nifer y staff uwch sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar wardiau ysbyty dros y penwythnos i alluogi cleifion i gael eu rhyddhau.
- 4** Cynyddu nifer y Nyrsys Ardal (a nyrsys a gradd meistr nyrsio cymuned) yn ôl i lefelau 2010 ac yn uwch.
- 5** Buddsoddi mewn gofal cymdeithasol fel y gall cleifion symud i'r lle gorau ar gyfer eu gofal pan fyddant yn barod yn glinigol i adael yr ysbyty.
- 6** Dylai GIG Cymru roi saib ar y gostyngiad i welyau ysbyty. Dylid adolygu'r angen am gapasiti yn genedlaethol â chynllun eglur i gynyddu capasiti gofal yn y lleoliad iawn (cymuned, ysbyty, ac ati).
- 7** Buddsoddi yn y gweithlu i ddarparu'r rhaglen *Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng*.
- 8** Galluogi GIG Cymru i arallgyfeirio cleifion yn ddiogel i wasanaethau cyfagos yn ôl yr angen.

<sup>1</sup> <https://www.llyw.cymru/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-gofal-mewn-argyfwng-llawlyfr-polisi-ar-gyfer-2021-i-2026>

# Tabl Cynnwys

Beth yw gofal mewn coridorau? .....	4
Sut mae gofal mewn coridorau yn beryglus? .....	5
Pam mae gofal mewn coridorau yn digwydd .....	6
Y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng .....	7
Argymhellion .....	9
<b>Gofal mewn coridorau yng Nghymru:</b>	
Yr hyn y mae cleifion ac aelodau RCN Cymru yn ei ddweud wrthym .....	15



## Beth yw gofal mewn coridorau?

- Mae'r ymadrodd "gofal mewn coridorau" yn cyfeirio at gleifion yn aros am driniaeth, asesiad neu ofal –neu'n cael eu trin, eu hasesu neu'n derbyn gofal –mewn mannau amhriodol fel coridorau, meysydd parcio, ystafelloedd seibiant a hyd yn oed toiledau nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer y diben hwn.
- Pan fo mwy o gleifion nag y mae man gofal wedi'i neilltuo ar eu cyfer, mae byrddau iechyd yn ceisio ymdopi mewn gwahanol ffyrdd. Efallai y byddant yn ychwanegu gwelyau ychwanegol at gilfachau cleifion neu ddefnyddio storffeydd fel mannau brysbennu. Mae cleifion yn aml yn derbyn gofal mewn cadeiriau (yn hytrach nag ar droliau neu mewn gwelyau) am gyfnodau hir, diwrnodau weithiau.
- Gall y term "gofal mewn coridorau" hefyd fod yn berthnasol pan fydd pobl yn cael eu trin wrth aros i gael eu symud o un lle i'r llall. Er enghraifft, gallai oediadau olygu bod angen iddynt gael eu trin gartref, ar y palmant, neu mewn maes parcio, pan fyddai ysbyty yn lanach ac yn fwy priodol.
- Er bod sgrysiâu ynghylch gofal mewn mannau amhriodol yn aml yn canolbwyntio ar adrannau damweiniau ac achosion brys a wardiau ysbyty, mae aelodau RCN Cymru hefyd yn hysbysu am ddigwyddiadau yn y gymuned, mewn gofal sylfaenol, mewn gofal cymdeithasol, mewn lleoliadau iechyd meddwl ac mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol hyd yn oed.



# Sut mae gofal mewn coridorau yn beryglus?


Mae gofal mewn mannau amhriodol yn rhoi diogelwch cleifion mewn perygl sylweddol oherwydd:

- Efallai y bydd gan gleifion ddiffyg mynediad at y clinigydd/triniaeth iawn sy'n golygu na ellir dilyn llwybrau clinigol seiliedig ar dystiolaeth.
- Efallai y bydd rhy ychydig o nyrsys cofrestredig neu staff nyrsio i ofalu'n ddiogel am gleifion ychwanegol.
- Efallai y bydd offer achub bywyd yn anhygyrch neu'n absennol.
- Efallai na fydd digon o le i gymryd mesurau achub bywyd.
- Efallai y bydd cleifion allan o olwg staff clinigol neu mewn man y mae'n anodd ei gyrraedd.
- Mae gorlenwi hefyd yn rhwystro cyfathrebu rhwng staff a chleifion, gan adael llai o amser i glinigwyr esbonio a chysuro.
- Efallai y bydd ychydig neu ddim preifatrwydd i gleifion. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid oedi asesiadau a thriniaethau neu eu cyflawni beth bynnag, gan beryglu urddas cleifion.
- Efallai y bydd mynediad annigonol neu ddim mynediad at doiledau, dŵr neu fwyd i gleifion.
- Mewn ardaloedd â goleuadau llachar neu sŵn, efallai y bydd cleifion yn cael trafferth cysgu. Os bydd claf yn dioddef dryswch, gall yr holl ffactorau hyn ei waethygu.
- Nid yw trolïau a chadeiriau ystafelloedd aros wedi'u dylunio i gael eu defnyddio'n barhaus gan glaf dros gyfnod estynedig. Mae'r profiad yn gorfforol anghyfforddus, yn boenus hyd yn oed, a gall arwain at glotiau gwaed, blinder cyhyrau neu friwiau pwysu.
- Mae cleifion na allant symud neu sydd mewn ystumiau nad ydynt yn ddelfrydol yn datgyflyru'n gyflym (oherwydd diffyg ymarfer corff, symudiad neu wendid cyhyrol). Gall hyn arwain at gyfnodau hwy yn yr ysbyty neu golli annibyniaeth.
- Gallai cleifion gael eu lleoli yn rhy agos at ei gilydd, gan fethu â chyd-fynd â chanllawiau'r GIG a chynyddu'r perygl y bydd heintiau'n lledaenu.
- Mae heintiau a drosglwyddir drwy'r aer yn fwy tebygol o ledaenu mewn coridorau. Mae hyn oherwydd bod awyriad yn aml yn wael o'i gymharu â mannau clinigol, fel wardiau, lle disgwylir i gleifion dreulio'r rhan fwyaf o'u hamser.
- Efallai na fydd staff glanhau yn gallu cael mynediad at y man ac unrhyw offer a rennir i'w lanhau a'i ddiheintio'n effeithiol rhwng cleifion.
- Mae gan gleifion ag anawsterau anadlu mewn coridor ddiffyg mynediad rhwydd at ocsigen drwy bibell a sugnedd, sydd ar gael yn barod ar erchwyn bob gwely ar wardiau ac mewn mannau clinigol.


**Mae gofal mewn mannau amhriodol yn peri risg sylweddol i gleifion.**

# Pam mae gofal mewn coridorau yn digwydd

Mae gofal mewn coridorau yn digwydd am sawl rheswm. Ar lefel syml, oherwydd bod nifer y bobl sydd angen gofal mewn ysbyty yn cynyddu'n gynt nag y gellir trin a rhyddhau cleifion presennol yn ddiogel. Mae nifer y bobl sydd angen gofal mewn ysbyty yn cynyddu am resymau lluosog, gan gynnwys diffyg gweithredu gan GIG Cymru a Llywodraeth Cymru i ddiwallu anghenion iechyd yn y gymuned.



Wrth i ysbytai gael trafferth yn bodloni'r galw cynyddol, mae ffactorau eraill yn y system iechyd a gofal yn gwaethygu'r sefyllfa (a ddangosir isod). Y canlyniad yw bod hyd yn oed mwy o gleifion yn derbyn gofal mewn manau amhriodol:



Fel y gellir gweld yn y diagramau hyn, mae amrywiaeth o heriau yn cyfuno i greu storm berffaith i gleifion ac i staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd.

Efallai nad oes gan bobl hŷn agored i niwed, a phobl yn y gymuned sydd angen gofal, y mynediad y dylai fod ganddynt at ofal nyrsio cymuned neu at ofal sylfaenol. Yr unig ddewis arall yw i bobl fynd i gael gofal mewn adran damweiniau ac achosion brys ysbyty, uned argyfwng yr un diwrnod neu i gael eu derbyn i'r ysbyty.

Mae'r nifer gyfartalog ddyddiol o welyau ysbyty yng Nghymru sydd ar gael ar gyfer cleifion aciwt llawfeddygol wedi gostwng 12.3% yn y 10 mlynedd ddiwethaf, o 2,427.2 yn 2013-14 i 2,128.8 yn 2023-24.<sup>2</sup>

<sup>2</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Activity/NHS-Beds/nhsbeds-by-specialty>


Mae nifer gyfartalog ddyddiol y gwelyau ysbyty yng Nghymru sydd ar gael ar gyfer cleifion aciwt meddygol hefyd wedi gostwng yn y 10 mlynedd ddiwethaf, o 4,640.2 yn 2013-14 i 4,527.4 yn 2023-24 – gostyngiad o 2.4%.<sup>3</sup>

Ar yr un pryd, rydym yn gwybod bod problem o ran oedi cyn rhyddhau, neu ryddhau pobl o'r ysbyty. Mae cleifion yn aml yn cael eu gwneud i aros am becyn gofal cartref, am lety mewn cartref nyrsio neu am addasiad i'w cartref. Mae hyn oherwydd nad oes digon o nyrsys ym maes gofal cymdeithasol i asesu angen yn gyflym. Yn bwysicach, nid oes digon o gapasiti nac adnoddau mewn gofal preswyl nac mewn gofal cymunedol.

## Y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

Mae *Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys Llywodraeth Cymru*,<sup>4</sup> sy'n rhan o'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, yn disgrifio blaenoriaethau uniongyrchol a thymor hwy Llywodraeth Cymru i ofal brys a gofal mewn argyfwng "sichrau bod cleifion yn cael y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf."

Dyma'r chwe nod:



Ffynhonnell: *Y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf: Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng* (Llywodraeth Cymru, 2022).<sup>5</sup>

<sup>3</sup> Ibid.

<sup>4</sup> <https://www.llyw.cymru/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-gofal-mewn-argyfwng-llawlyfr-polisi-ar-gyfer-2021-i-2026>

<sup>5</sup> <https://www.llyw.cymru/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-gofal-mewn-argyfwng-llawlyfr-polisi-ar-gyfer-2021-i-2026>

## Mae RCN Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun yn llawn, a chynnwys pob Coleg Brenhinol - gan gynnwys y Coleg Nyrsio Brenhinol - yn y gwaith hwn.

Aeth staff nyrsio ar streic ym mis Rhagfyr 2022 a mis Mehefin 2023 i fynnu bod Llywodraeth Cymru yn gwrandao ar eu pryderon am ddiogelwch a llesiant cleifion ac am ddyfodol y proffesiwn nyrsio. Y streiciau nyrsio hyn oedd y cyntaf yn hanes Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru.

Mae aelodau RCN Cymru yn eglur bod gofal mewn coridorau yn niweidiol i ddiogelwch a llesiant cleifion a'i fod wedi troi'n argyfwng. Nodwyd rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau fel prif flaenoriaeth gan aelodau RCN Cymru.

Yn rhan o elfennau dyfarniad cyflog nyrsio 2022/23 nad oeddent yn ymwneud â thâl, addawodd Llywodraeth Cymru y byddai derbyn ychwanegol (neilltuo cleifion ychwanegol i wardiau/adranau dros yr hyn a sefydlwyd) neu ofal mewn coridorau yn digwydd o dan amgylchiadau eithriadol yn unig drwy'r gweithredwr cyfrifol a enwyd.<sup>6</sup> Ni wireddwyd yr ymrwymiad hwn eto, ac mae gofal mewn coridorau yn dal i fod yn arferol ar draws GIG Cymru, gan beryglu diogelwch cleifion.

Addawodd Llywodraeth Cymru hefyd y byddai polisi uwchgyfeirio cenedlaethol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu yn cynnwys pethau y mae'n rhaid eu hosgoi o ran archwiliadau/ymchwiliadau/cyfathrebu sensitif personol sy'n digwydd mewn lleoliadau amhriodol sy'n peryglu preifatrwydd ac urddas i bawb.<sup>7</sup> Ar adeg ysgrifennu hyn, nid yw'r polisi uwchgyfeirio wedi cael ei weithredu ar draws GIG Cymru ac mae cleifion yn dal i ddioddef y pethau y mae'n rhaid eu hosgoi mewn manau cyhoeddus yn rheolaidd. Nid yw hyn yn dderbyniol.

Mae gofal mewn manau amhriodol yn fater diogelwch cleifion hollbwysig. Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn annog Aelodau o'r Senedd, a Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd yn arbennig, felly, i gynnal ymchwiliad polisi brys i ofal mewn coridorau yng Nghymru gan gynnwys ymchwiliad i'r risgiau dilynol i ddiogelwch cleifion.



---

<sup>6</sup> <https://www.rcn.org.uk/wales/Get-Involved/Nursing-Pay-in-Wales/Welsh-Governments-offer-in-principle>

<sup>7</sup> <https://www.rcn.org.uk/wales/Get-Involved/Nursing-Pay-in-Wales/Welsh-Governments-offer-in-principle>



# Argymhellion

## ARGYMHELLIAD 1: Sefydlu gofal a ddarperir i glaf mewn cadair am fwy na 24 awr fel “digwyddiad byth”.

Un o'r rhesymau pam mae gofal wedi'i ddarparu mewn cadeiriau wedi dod mor gyffredin yw bod mesurau diogelu annigonol i'w atal. Mewn gwasanaethau iechyd, mae mathau penodol o ddigwyddiadau yn cael eu dosbarthu fel “digwyddiadau byth”. “Digwyddiadau difrifol y gellir eu hatal yn llwyr oherwydd bod canllawiau neu argymhellion diogelwch ar gael ar lefel genedlaethol ac y dylai pob darparwr gofal iechyd fod wedi'u gweithredu”<sup>8</sup> yw'r rhain. Cyhoeddir cofnodion o'r digwyddiadau hyn bob blwyddyn o leiaf. Mae RCN Cymru o'r farn y dylid rhoi gofal mewn cadair sy'n mynd y tu hwnt i gyfnod o 24 awr gael ei roi yn y categori hwn.

Pan fydd cleifion yn cael eu trin am gyfnodau hir mewn cadeiriau, yn hytrach na gwelyau, mae eu diogelwch, eu cysur a'u symudedd yn cael eu peryglu. Caiff eu preifatrwydd a'u hurddas eu cymryd. Pan fydd trefniadau dros dro yn ymestyn i gyfnodau amser hwy, mae cymorth gyda chodi a chario i staff yn aml yn cael ei beryglu. Mae hyn yn rhoi'r claf a'r aelod o staff mewn perygl o anaf difrifol.

Byddai dosbarthu gofal mewn cadair sy'n mynd y tu hwnt i 24 awr fel digwyddiad o'r fath yn canolbwyntio sylw darparwyr ar ei atal. Nid yn unig y byddai'n sicrhau adrodd priodol i fwrdd corfforaethol y bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd perthnasol, ond gallai'r data system gyfan a gynhyrchir hysbysu strategaethau i leihau gofal mewn coridorau, ynghyd â digwyddiadau byth eraill, a chael gwared arnynt yn y pen draw.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod prosesau uwchgyfeirio cadarn ar waith i reoli galw yn effeithiol heb fod angen gofal mewn coridorau. Dylid monitro cyflwyniad y rhain yn agos, gan ddwyn sefydliadau GIG i gyfrif pan fydd gofal mewn coridorau yn digwydd.

Mae RCN Cymru yn galw i ystadegau ar ofal mewn cadair a phob math o ofal mewn coridorau yng Nghymru gael eu cyhoeddi yn rheolaidd, gan ganiatáu mwy o dryloywder a chraffu. Dylid dadansoddi'r ystadegau hyn fesul bwrdd iechyd ac ysbyty/darparwr iechyd. Dylai'r ystadegau gynnwys nifer yr oriau y bu'n rhaid i bob claf eu treulio mewn cadair neu fan amhriodol arall (wedi'i nodi, e.e. “gwely mewn toiled”), y rheswm am y derbyniad, a pha un a wnaeth y claf wella neu waethygu yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys unrhyw gymhlethdodau neu anafiadau a ddiodefwyd.

<sup>8</sup> <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/whc-2022-020-digwyddiadau-byth-polisi-a-rhestr-digwyddiadau-gorffennaf-2022.pdf>

## ARGYMHELLIAD 2: Cymryd mesurau i helpu i feithrin diwylliant gwasanaeth iechyd lle mae staff nyrsio yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i godi pryderon diogelwch.

Mae RCN Cymru wedi mynegi pryder eu bod yn teimlo na allant godi pryderon am ofal peryglus, neu pan fyddant yn codi pryder, nad oes neb yn gwranddo arnynt.

Mae staff nyrsio yn defnyddio rhaglen feddalwedd o'r enw Datix i godi pryderon am ofal peryglus ar wardiau ysbyty. Dywedodd 70.8% o aelodau RCN a arolygwyd gan RCN Cymru bod ganddynt bryderon yn defnyddio system Datix. O'r rheini, dywedodd 82.9% bod adroddiad Datix yn cymryd gormod o amser i'w gwblhau, dywedodd 32.0% nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant, dywedodd 29.9% nad oeddent wedi derbyn ymatebion i adroddiadau Datix blaenorol yr oeddent wedi eu hanfon a dywedodd 25.0% bod y system yn annibynadwy/mae'n chwalu/nid yw'n cadw gwaith. Ychwanegodd rhai hefyd nad yw system Datix yn ystyriol o ddefnyddwyr, gan fod gormod o gwymplenni.

Dywedodd 76.2% o aelodau RCN Cymru nad ydynt yn derbyn unrhyw adborth ystyrion neu ddefnyddiol o adroddiadau Datix y maent yn eu hanfon, gan godi pryderon na chymerir camau yn sgil adroddiadau Datix bob amser. Yng ngeiriau un aelod RCN Cymru: *“Does dim byth yn newid gan ein bod ni'n ddibynol ar reolwyr yn gweithredu o ganlyniad i'r Datix. Maen nhw'n sicr yn anfodlon gwneud unrhyw beth am amodau gweithio peryglus neu lefelau staffio gwael.”*

Mae'n aml yn aneglur i'r nyrs reng-flaen pa un a fydd unrhyw un y tu hwn i'w goruchwyllydd uniongyrchol fyth yn gweld y ffurflen Datix y mae'n ei llenwi neu pa un a fydd unrhyw gamau yn deillio ohoni. Mae'r feddalwedd hefyd yn galluogi'r ffurflen wreiddiol i gael ei golygu, ei chategoreiddio neu ei diystyru gan reolwyr. Er ei bod yn bwysig bod lle i reolwyr llinell ddarparu cyd-destun a chofnod o gamau lliniaru, mae'r system bresennol wedi colli hyder staff rheng-flaen.

Yn bryderus, dywedodd rhai aelodau RCN Cymru hefyd eu bod yn cael eu perswadio gan eu goruchwylwyr i beidio â chodi'r pryderon hyn, neu hyd yn oed eu cosbi am wneud. Dywedodd un aelod RCN Cymru: *“Bydd Uwch Reolwyr yn erlid pobl sy'n codi pryderon sy'n awgrymu nad yw'r gwasanaeth yn perfformio”* ac yn ôl aelod arall: *“Mae hwn yn ddiwylliant o neilltuo bai: rydych chi'n cael eich dwyn i gyfrif am unrhyw beth a allai bardduo enw da'r bwrdd iechyd.”*

Rhwng anafanteision y feddalwedd Datix ei hun a theimlad ymhlith staff na chymerir camau ar sail pryderon a godir drwy'r system Datix, nid oes rhyfedd bod 76.4% o'r ymatebwyr yn dweud nad oes ganddynt hyder yn y system Datix.

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn helpu i greu amgylchedd lle mae staff nyrsio yn teimlo'n gyfforddus ac yn cael eu hannog i godi pryderon am ofal peryglus, gan gynnwys gofal mewn coridorau.

Dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo Gweithrediaeth y GIG adolygu effeithiolrwydd y gwasanaeth Datix, a ddylai gynnwys gwerthusiad o'r feddalwedd ei hun yn ogystal â'r ffordd y mae'n cael ei defnyddio yn ymarferol.

Mae rhan o greu amgylchedd lle mae staff nyrsio yn teimlo'n gyfforddus ac yn cael eu hannog i godi pryderon am ddiogelwch cleifion yn golygu sicrhau bod pryderon yn cael sylw, yn cael ymateb ac yn cael eu datrys yn brydlon, a bod eu pryderon yn cael eu huwchgyfeirio i'r lefel briodol.

### ARGYMHELLIAD 3: Cynyddu nifer y staff uwch sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar wardiau ysbyty dros y penwythnos i alluogi cleifion i gael eu rhyddhau.

Mae angen cyflogi ymgynghorwyr meddygol ac ymarferwyr meddygol uwch dros y penwythnos fel y gallant ryddhau cleifion yn briodol ac yn ddiogel ar sail brydlon.

Mae nyrsys ymgynghorol yn unigolion uwch sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran sicrhau gofal diogel ac effeithiol. Mae nyrs ymgynghorol yn nyrs arbenigol sy'n pontio meysydd ymarfer, ymchwil, addysg, strategaeth ac arweinyddiaeth i wella gofal cleifion.

Fel y cyfryw, mae gan nyrsys ymgynghorol yr awdurdod i ryddhau cleifion o'r ysbyty. Fodd bynnag, nid oes digon o nyrsys ymgynghorol yn gweithio yn GIG Cymru (am ragor o wybodaeth, gweler y papur briffio diweddar gan RCN Cymru, *Nyrsys ymgynghorol: gofal arbenigol i gleifion*<sup>9</sup>) a cheir hyd yn oed yn llai o nyrsys ymgynghorol sy'n gweithio ar benwythnosau.

### ARGYMHELLIAD 4: Cynyddu nifer y Nyrsys Ardal (a nyrsys a gradd meistr nyrsio cymuned) yn ôl i lefelau 2010 ac yn uwch i fodloni galw cynyddol.

Fodd bynnag, nid yr ysbyty yw'r lle mwyaf priodol i glaf o reidrwydd. Mewn llawer o sefyllfaoedd, gallai gofal gartref fod yn fwy priodol ac effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau buddsoddiad mewn nyrsio ardal – y gweithlu sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu'r math hwn o ofal – ac nid yw'n comisiynu digon o gyrsiau nyrsio ardal.

Arweinir timau nyrsio cymuned gan nyrsys ardal neu nyrsys cofrestredig â gradd ôl-gofrestru (meistr) nyrsio cymuned. Yr arweinwyr nyrsio hyn yw brig profiadol tîm nyrsio cymuned, yn darparu cefnogaeth, cyngor arbenigol ac arweinyddiaeth i nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae timau nyrsio cymuned yn gwneud gwaith hanfodol ym mhob rhan o Gymru, gan ddarparu gofal yn agosach at gartrefi pobl, gofalu am gleifion a ryddhawyd o'r ysbyty yn ddiweddar ac atal yr angen am dderbyniad i'r ysbyty.

Er gwaethaf hyn, yn 2024, bydd nifer y cyrsiau nyrsio ardal yn gostwng am y tro cyntaf ers 2017.<sup>10</sup>

<sup>9</sup> <https://www.rcn.org.uk/Professional-Development/publications/rcn-consultant-nurses-english-uk-pub-011-862>

<sup>10</sup> <https://aagic.gig.cymru/files/atodiadau-cynllun-addysg-a-hyfforddiant-blynyddol-2024-25/>

Gostyngodd nifer y nyrsys ardal yn GIG Cymru 13.5% rhwng Mehefin 2020 a Mehefin 2024, o 677.2 i 585.8.<sup>11</sup> Mae hwn yn ostyngiad sylweddol i nifer y nyrsys ardal yng Nghymru.

O ystyried proffil oedran y gweithlu nyrsio ardal, nifer y rhai sy'n gadael y proffesiwn a'r niferoedd cynyddol o bobl â chyflyrau cymhleth sy'n derbyn gofal yn y gymuned, mae angen i AaGIC fynd i'r afael â'r dirywiad hwn drwy ei broses comisiynu addysg fel mater o frys.

Dylai Llywodraeth Cymru, AaGIC a GIG Cymru gydweithio i gynyddu nifer y nyrsys cymuned ymarfer arbenigol, y nyrsys ymarfer uwch a'r nyrsys ymgynghorol ym mhob maes yng Nghymru. Mae'n rhaid i hyn gynnwys pwyslais ar nyrsys ardal.

Rhoddwyd swyddogaeth ganolog i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran bwrw ymlaen â'r agenda integreiddio yng Nghymru; mae *Cymru Iachach*<sup>12</sup> yn dweud bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol "yn chwarae rhan gref yn goruchwyllo ac yn cydlynu" i gyflawni newid. O ystyried y rhan ganolog hon, dylai nyrsio gael ei gynrychioli ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol â chyfranogiad y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.

Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio yn atebol am yr holl ofal nyrsio a ddarperir yn ardal eu bwrdd iechyd lleol gan gynnwys gofal nyrsio yn y sector gofal cymdeithasol. Byddai sefydlu y dylent fod ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn sicrhau bod ganddynt y grym sydd ei angen i sicrhau ansawdd gofal a gomisiynir yn eu bwrdd iechyd lleol ac i gyflawni eu cyfrifoldebau.

## ARGYMHELLIAD 5: Buddsoddi mewn gofal cymdeithasol fel y gall cleifion symud i'r lle gorau ar gyfer eu gofal pan fyddant yn barod yn glinigol i adael yr ysbyty.

Mae nyrsys yn hollbwysig i iechyd ac ansawdd bywyd preswylwyr cartrefi gofal. Maent yn graidd i'r gweithlu cartrefi gofal sy'n sicrhau bod preswylwyr yn derbyn gofal gydag urddas a thosturi. Mae nyrsys cartrefi gofal yn darparu gofal hynod fedrus, yn hybu annibyniaeth, yn canfod unrhyw ddirywiad mewn cleifion, a gallant leihau'r angen i unigolion dderbyn gofal mewn amgylchedd ysbyty.

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ac annog ymchwil glinigol yn y sector cartrefi gofal. Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau o ofal yn y DU yn canolbwyntio ar y GIG. Nid yw hyn yn adlewyrchu gofal yn ymarferol. Mae'r astudiaethau mwy mynych yn UDA yn adlewyrchu'r ffaith bod staffio mewn cartrefi nyrsio, a pheryglon staff annigonol – yn enwedig gyda'r nos ac ar benwythnosau –

<sup>11</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff/nursingmidwiferyandhealthvisitingstaff-by-grade-areaofwork-year>

<sup>12</sup> <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>

wedi bod ac yn dal i fod yn uchel ar yr agenda wleidyddol. Canfu astudiaethau yno y gall staff nyrsio annigonol gael effaith negyddol ar yr holl breswylwyr mewn cartref nyrsio, a bod perthynas gref hefyd rhwng lefelau staff nyrsio uwch mewn cartrefi gofal a llai o ddefnydd o adrannau damweiniau ac achosion brys a dychwelyd i'r ysbyty o gartrefi nyrsio.<sup>13</sup>

Mae RCN Cymru o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu strategaeth i recriwtio a chadw nyrsys ym maes gofal cymdeithasol. Mae gweithlu nyrsio cynaliadwy yn hanfodol i ddiwallu anghenion y boblogaeth sy'n derbyn gofal cymdeithasol. Dylai Gofal Cymdeithasol Cymru weithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gomisiynu Cymwysterau Ymarferwyr Arbenigol Gofal Cymdeithasol.

Hefyd, nid yw Llywodraeth Cymru yn buddsoddi digon mewn gofal cymdeithasol. Mae data ar nyrsio yn y sector yn brin, ond mae'n awgrymu bod y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi colli 32% o'i nyrsys cofrestredig ers 2018.<sup>14</sup> Y cwbl y mae hyn yn ei wneud yw gwaethygu cyffredinrwydd a phroblem gofal mewn coridorau yn ysbytai Cymru.

Byddai buddsoddi mewn gofal cymdeithasol yn sicrhau y gall cleifion dderbyn gofal yn y man mwyaf priodol a gadael yr ysbyty pan fyddant yn barod i wneud hynny. Byddai hyn yn rhyddhau gwelyau ysbyty ac yn lleddfu pwysau ar wasanaethau adrannau damweiniau ac achosion brys.

## **ARGYMHELLIAD 6: Dylai GIG Cymru roi saib ar y gostyngiad i welyau ysbyty. Dylid adolygu'r angen am gapasiti yn genedlaethol â chynllun eglur i gynyddu capasiti gofal yn y lleoliad iawn (cymuned, ysbyty, ac ati).**

Mae'r nifer gyfartalog ddyddiol o welyau ysbyty yng Nghymru sydd ar gael ar gyfer cleifion aciwt llawfeddygol wedi gostwng 12.3% yn y ddeng mlynedd ddiwethaf, o 2,427.2 yn 2013-14 i 2,128.8 yn 2023-24.<sup>15</sup> Mae nifer gyfartalog ddyddiol y gwelyau ysbyty sydd ar gael ar gyfer cleifion aciwt meddygol hefyd wedi gostwng yn y 10 mlynedd ddiwethaf, o 4,640.2 yn 2013-14 i 4,527.4 yn 2023-24 – gostyngiad o 2.4%.<sup>16</sup>

Nid gwely ysbyty yw'r lle iawn i bob claf, ond gwely ysbyty yw'r lle iawn i rai. Mae lleihau nifer y gwelyau ysbyty sydd ar gael yn cael effaith niweidiol ar ofal cleifion ac yn rhoi bywydau mewn perygl.

<sup>13</sup> <https://www.rcn.org.uk/Professional-Development/publications/rcn-caring-for-older-people-english-report-uk-pub-010-934>

<sup>14</sup> <https://www.rcn.org.uk/Professional-Development/publications/rcn-nursing-in-numbers-2024-eng-uk-pub-011-864> (gweler tudalen 9).

<sup>15</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Activity/NHS-Beds/nhsbeds-by-specialty>

<sup>16</sup> *Ibid.*

Mae RCN Cymru o'r farn y dylai GIG Cymru atal y gostyngiad i nifer y gwelyau ysbyty a chynnal adolygiad cenedlaethol o gapasiti aciwt â chynllun eglur i gynyddu capasiti gofal yn y lleoliad iawn (cymuned, ysbyty, ac ati).

Yn rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r angen am fodel "cam-i-fyny" o ofal canolraddol pan nad oes angen triniaeth frys ar gleifion mewn ysbyty aciwt ond sydd serch hynny yn rhy sâl i dderbyn triniaeth gartref ac yn gallu "camu-i-fyny" i ofal canolraddol. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, mewn ysbyty cymuned, mewn cartref gofal neu mewn tai â gofal.

## ARGYMHELLIAD 7: Buddsoddi yn y gweithlu i ddarparu'r rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.

Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen genedlaethol, *Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng*,<sup>17</sup> sy'n amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu'r Chwe Nod yn llawn ledled Cymru, a chynnwys pob Coleg Brenhinol — gan gynnwys y Coleg Nyrsio Brenhinol — yn y gwaith hwn.

Byddai gweithredu'r Chwe Nod yn helpu i ddarparu dewisiadau clinigol ddiogel yn hytrach na derbyn i'r ysbyty, yn sicrhau dull cartref yn gyntaf o ymdrin â gofal cleifion ac yn lleihau'r perygl o aildderbyniad.

## ARGYMHELLIAD 8: Galluogi GIG Cymru i arallgyfeirio cleifion yn ddiogel i wasanaethau cyfagos yn ôl yr angen.

Mae'n rhaid i ysbytai allu "cau drysau" i sicrhau diogelwch cleifion.

Mae RCN Cymru o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio ei fframwaith uwchgyfeirio fel y gellir arallgyfeirio cleifion yn ddiogel yn ôl yr angen, heb gosbi'r bwrdd iechyd.

I helpu i gyflawni hyn, dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymunedol fel yr amlinellir yn Argymhelliad 6.

<sup>17</sup> <https://www.llyw.cymru/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-gofal-mewn-argyfwng-llawlyfr-polisi-ar-gyfer-2021-i-2026>

# Gofal mewn coridorau yng Nghymru:

Yr hyn y mae cleifion ac aelodau RCN Cymru yn ei ddweud wrthym

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

“Rwy’n fwy na siomedig am y ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Gwnaed i dad un o’r cydweithwyr, sydd yn ei 80au, aros mewn ambiwlans am 12 awr. Roedd ganddo rwystrau a chanser o bosibl. Aethpwyd ag ef wedyn i uned asesu ar droli mewn coridor gyda staff ambiwlans.”

“Roedd fy merch, sy’n feichiog, yn dioddef o orgyfogi a dywedwyd wrthi am fynd i’r ysbyty. Roedd yn chwydu mewn coridor, heb unrhyw wres yn y coridor. Bu’n rhaid iddi aros ar droli am ddiwrnod a hanner cyn cael ei symud i ward. Yna, fe wnaethon nhw ei symud i swyddfa meddyg, lle nad oedd unrhyw seinyddion y gallai eu defnyddio pe bai angen cymorth arni. Yna, fe’i symudwyd yn ôl i’r coridor.”

“Mae fy mab yn ei ugeiniau ac roedd yn dioddef o donsilitis. Roedd yn cael trafferth yn anadlu’n arferol ac felly aeth i’r adran damweiniau ac achosion brys lle dywedwyd wrtho y byddai’n rhaid iddo aros 10 awr ac y byddai’n well iddo ddychwelyd adref. Arhosodd yn yr adran damweiniau ac achosion brys, lle bu’n eistedd mewn cadair dros nos a drwy gydol y diwrnod canlynol.”

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

“Defnyddiodd ysbytai cymuned yn Betsi ystafell fwyta ar gyfer gofal cleifion – nid oes unrhyw ocsigen pibell neu sugnedd yn yr ystafelloedd hyn.”

“Anfonwyd gwraig yn ei nawdegau yn ôl i’r ystafell aros ar ôl cael ei brysbennu mewn adran damweiniau ac achosion brys yn Betsi. Nid oedd unrhyw berthnasau gyda hi, roedd hi mewn cadair olwyn, eisiau cymorth i fynd i’r toiled – fe wnaeth hi wlychu ei hun yn ddamweiniol ac fe wnaeth claf arall ei helpu i fynd i’r toiled.”

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dywedodd un nyrs ac aelod o RCN Cymru bod achosion o ofal mewn manau amhriodol yn yr ysbyty lle maent yn gweithio wedi eu gadael yn “ofidus iawn”. Fe wnaethon nhw siarad ag RCN Cymru am dair gwahanol enghraifft o ofal mewn coridorau yr oeddent wedi eu gweld o fewn pythefnos:

“Anfonwyd y claf i... [ward] ...tua 10am, eisteddodd ar gadair yn y coridor wrth gorlan y nyrsys tan 4pm pan allem ni ei drosglwyddo i droli yn ein cilfach cleifion allanol. Cafodd wely am 7pm. Roedd mewn poen, yn dioddef dolur rhydd gwaedlyd helaeth...roedd ar gyfer fflecsi sig [sigmoidosgopi hyblyg] y diwrnod hwnnw, sydd angen enema ffoffad fel paratoad. Sut oeddwn i fod i roi enema mewn cadair yn y coridor?

“Roedd gen i berson ifanc 18 oed am ddwy noson yn y gilfach cleifion allanol ar droli hefyd.” -

Ymwelodd cynrychiolydd RCN â ward ysbyty ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:

“Dywedodd y nyrs gofrestredig wrthym y bu ganddi 10 o gleifion i ofalu amdany'n nhw'n flaenorol, yn ogystal â chlaf yn y coridor a oedd yn ddruslyd ac yn dioddef o ddemtia. Dywedodd ei fod yn peri straen mawr a'i bod yn teimlo nad oedd yn ddiogel. Nid yw'r claf yn y coridor ar gynllun gwelyau'r ward. Maen nhw'n meddwl eu bod nhw'n cael eu cadw ar gynllun gwely'r adran damweiniau ac achosion brys tan fod ganddyn nhw wely rhydd ar [y ward] i dderbyn. Gall y claf fod yn y coridor am awr neu ddwy i'r rhan fwyaf o'r dydd. Nid ydyn nhw'n gallu darparu gofal personol yn y coridor.

“Fe wnaethon ni hefyd ymweld â [ward arall] — defnyddir ystafell driniaeth i osod draeniau'r frest a ddefnyddir o nos Wener a dros y penwythnos fel gwely troli ychwanegol ac mae ganddyn nhw le yn y coridor hefyd a ddefnyddir ar gyfer un claf ar droli. Nid yw'r cleifion hyn bob amser yn briodol ar gyfer gofal mewn coridorau. Maen nhw wedi cael un trawiad ar y galon yn y coridor yn ddiweddar.

“Fe wnaethon ni ymweld â [ward lle mae'n rhaid i staff] roi enwau cleifion i nyrsys uwch yn ddyddiol y maen nhw'n credu sy'n addas i gael eu symud i le mewn coridor yn yr ysbyty i ganiatáu i glaf arall ddod i mewn i'w lle.”



## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

“Ar ôl dioddef trawiad ar y galon, cefais fy hun mewn adran damweiniau ac achosion brys, man sydd i fod yn noddfa o ofal a gwellhad ond a wnaeth droi'n gyflym yn brawf gwytnwch. Am dri diwrnod hir, eisteddais mewn cadair, ynghlwm i fonitor y galon, wedi fy nghyfyngu i goridor heb unrhyw breifatrwydd na lle priodol. Roedd y diffyg cyfleusterau yn frawychus -dim mynediad at wely, dim ffordd o gael cawod, a fy unig luniaeth oedd brechdan a phaned o de, nid y maeth y byddai rhywun yn ei ddisgwyl ar adeg mor hollbwysig.

“Roedd yr amgylchedd yn llethol. Cefais fy lleoli ger corlan y nyrsys, yn agos at y toiledau, lle'r oeddwn i'n gallu gweld cleifion yn cael eu cysuro gan nyrsys, ond tyfodd fy nheimlad fy hun o fod yn agored i niwed gyda phob awr a aeth heibio. Fe wnaeth sŵn bipian parhaus monitorau, y diffyg lle personol, a'r anallu i orffwyso'n iawn fy ngadael i'n teimlo'n agored. Fe wnes i glywed ar ddamwain sgysiaiu cyfrinachol rhwng meddygon, cleifion a theuluoedd, gan ychwanegu at fy anesmwythder - rhywbeth na ddylai fyth ddigwydd, ond a oedd yn foeth na allai neb ei fforddio yn yr amgylchedd prysur a di-drefn.

“Roeddwn i'n ofnus, nid yn unig oherwydd fy iechyd fy hun, ond oherwydd yr hyn yr oeddwn i'n ei weld. Roedd y gweithwyr meddygol proffesiynol yn gwneud eu gorau, ond roedd yn boenus o eglur eu bod nhw wedi'u gorymestyn. Gwelais ddau gorff yn mynd heibio wrth iddyn nhw gael eu cludo i'r corffdy, atgoffâd noeth o fregusrwydd bywyd. Fe wnaeth y profiad fy ysgwyd, a fy ngadael yn teimlo'n ddiymadferth, yn agored i niwed ac yn ansicr am yr hyn a fyddai'n digwydd nesaf.”

Fe wnaeth aelod o RCN gysylltu ag RCN Direct. Dywedodd wrth RCN Direct bod y man derbyn ychwanegol ar ei ward ysbyty wedi cael ei ehangu ac y bu gostyngiad i nifer y staff nyrsio sy'n gweithio ar shiftt, gan adael yr aelod o RCN yn teimlo wedi blino'n lân ac yn emosiynol. Cyfeiriodd yr aelod at y poen moesol y mae nyrsys yn ei ddioddef o ganlyniad i orfod trin cleifion mewn amgylcheddau amhriodol, gan hyd yn oed mynd mor bell ag esbonio sut mae'r poen moesol hwn “yn ei gwneud yn anodd [iddi hi a'i chydweithwyr] gyswllt llygaid â chleifion sy'n cael eu trin ar goridor.” Mae'r aelod bellach yn cwestiynu a yw hi eisiau parhau i fod yn nyrs.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

“Roedd gŵr oedrannus wedi cael strôc ond fe'i rhoddwyd ar gadair mewn ystafell aros lle bu'n aros, ar gadair, am oriau. Roedd yn hynod ddi-drefn. Nid oedd gennym ni wely yn ein man ni. Rwy'n siarad â chydweithwyr ledled Cymru ac rydym ni i gyd yn yr un sefyllfa.”

“Roedd claf yn eistedd mewn ystafell aros, pan ddylai fod wedi bod ar wely. Fe wnaeth lewygu a marw yn yr ystafell aros. Yn anffodus, nid yw hyn yn rhywbeth sy'n anghyffredin.”

“Fe wnes i nyrsio 20 o gleifion a oedd yn eithriadol o sâl yn [uned mewn ysbyty Hywel Dda] ... oherwydd prinder gwelyau, fe wnaeth y cleifion hyn gysgu mewn cadeiriau. Mae hyn yn digwydd bob un nos. Weithiau rydym ni'n gallu cael troli dros ben o'r ystafell lawdriniaeth. Mae rhai cleifion yn penderfynu cysgu ar lawr yr uned. Pe bai unrhyw un o'r cleifion hyn yn cael trawiad ar y galon, ni fyddem yn gallu cael y troli brys i mewn i'r ystafell. Mae gennym ni gleifion ar droliâu mewn ystafelloedd triniaeth hefyd. Nid yw hyn yn gwella, ond yn hytrach yn gwaethygu gan ein bod ni'n gweithio'n brin o staff yn gyson a chyda nifer fawr o asiantaethau. Rydym ni'n gweithio o dan bwysau a straen aruthrol ac mae'n eglur bod problemau difrifol o ran diogelwch cleifion.”

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

“Ceir prinder ystafelloedd [mewn gwasanaeth plant yn y bwrdd iechyd] ac rydym ni wir wedi gweld effeithiau toriadau i gyllid. Mae'n rhaid i blant dderbyn gofal mewn mannau cyhoeddus a hyd yn oed yn yr hyn sydd, i bob pwrpas, yn ystafelloedd cwpwrdd ysgol. Rwy'n teimlo fel pe na bai iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth.”

“Maen nhw'n diraddio ysbytai cymuned ym Mhowys ac mae gwelyau yn cael eu cymryd oddi wrth yr ysbytai hyn. Yn enwedig gan fod Powys mor wledig, mae hyn yn rhoi llawer o bwysau ar wasanaethau iechyd ac yn effeithio ar ofal cleifion.”

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

“Mae argyfyngau wedi digwydd yng nghanol coridorau, â chleifion eraill yn dystion. Mae cleifion sâl iawn yn cael eu gorfodi’n rheolaidd i eistedd ar gadair, weithiau am ddau ddiwrnod neu fwy hyd yn oed. Mae cleifion yn [un adran ysbyty] yn aros hyd at wythnos am wely. Ceir offer a chyfleusterau annigonol. Mae staff yn gynddeiriog am y peth.”

“Fe es i â fy mam i’r ysbyty oherwydd cymhlethdodau gyda chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint. Roedd ystafell aros yr adran damweiniau ac achosion brys yn llawn. Cawsom ni ein brysbennu ac archwiliwyd fy mam. Oherwydd bod gan fy mam ei photel ocsigen fach ei hun, dywedwyd wrthi am barhau i’w ddefnyddio a -phe bai’n dod i ben -i ofyn am un newydd. Dywedwyd wrthym ni i aros yn yr ystafell aros. Fe’n galwyd i mewn ac allan o ystafell [a oedd] yn amlwg yn cael ei defnyddio, ac yna dywedwyd wrthym bob amser i fynd yn ôl i’r ystafell aros. Mae fy mam yn 78. Mae wedi cael strôc a phrin yw’r defnydd sydd ganddi o’i hochr chwith ac mae ganddi glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, lymffoedema, a diabetes math 2. Mae eistedd yn yr un ystum am gyfnodau maith yn achosi poen iddi, ac eto bu’n rhaid iddi eistedd yn ei chadair olwyn am sawl awr, a chafodd gynnig dim ond un frechdan ham a phaned o de.

“Pan gawsom ni ein gweld gan feddyg o’r diwedd, dywedwyd wrthym ni i’w ddilyn trwy sawl coridor, tan yn y pen draw iddo stopio, troi at fy mam a dechrau trafod cyflwr fy mam gyda hi. Ar ôl ychydig funudau, fe wnaeth droi ac edrych at ddrws a dweud, “Os byddaf i angen eich archwilio, a oes ots gennych chi os awn ni i mewn i’r fan yna?” “Wel, toiled i bobl anabl yw hwnna,” atebais. Roeddwn i’n gallu gweld bod y meddyg yn teimlo cywilydd, ac atebodd bod gennym ni’r hawl i wrthod, ond pe maen ni’n gwneud hynny, byddai’n rhaid i ni aros sawl awr arall i giwbicl ddod ar gael. Dewisodd mam gael ei harchwilio yn y toiled. Roeddem ni’n gallu mynd adref wedyn ar ôl yr asesiad, diolch byth.”



## Ynglŷn â'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)

Y Coleg Nyrsio Brenhinol yw sefydliad proffesiynol ac undeb llafur mwyaf y byd ar gyfer nyrsio, sy'n cynrychioli dros 500,000 o nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth gofal iechyd a myfyrwyr nyrsio, gan gynnwys dros 30,500 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau RCN yn gweithio yn y sector annibynnol a'r GIG. Mae tua dwy ran o dair o'n haelodau wedi'u lleoli yn y gymuned. Mae'r RCN yn sefydliad ledled y DU, gyda Byrddau Cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r RCN yn cynrychioli nyrsys a nyrsio, yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn ymarfer nyrsio ac yn llywio polisi iechyd a gofal cymdeithasol.

Cysylltwch â [policy&publicaffairs.wales@rcn.org.uk](mailto:policy&publicaffairs.wales@rcn.org.uk) am ragor o wybodaeth.